



Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)

Cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ1): Cyhoeddwyd ar 17 Chwefror 2026

Mae'n rhaid derbyn ymatebion erbyn dyddiad cau 3: 10 Mawrth 2026

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA). Os bydd angen, mae amserlen yr archwiliad yn galluogi'r ExA i gyhoeddi rownd ychwanegol o gwestiynau ysgrifenedig maes o law. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rownd ychwanegol o gwestiynau fel ExQ2.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r asesiad cychwynnol o'r prif faterion a ddarparwyd fel **atodiad C** i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 9 Rhagfyr 2026, ond sydd hefyd yn ymdrin â themâu a phynciau eraill. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba barti â buddiant (IP) ac unigolyn arall y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif 1 (sy'n dangos ei fod yn perthyn i ExQ1) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar ansawdd aer ac allyriadau fel ExQ1.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Dylech ymateb i'r cwestiynau drwy ddefnyddio'r swyddogaeth **Lleisio'ch barn** ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol a dewis 'Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio (ExQ1)' pan ofynnir.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, fe allwch gyflwyno'ch atebion trwy ddewis 'Gwneud sylw' a rhoi eich atebion yn y blwch 'Eich sylwadau'. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, dylech lawrlwytho copi o fersiwn Microsoft Word y ddogfen, cofnodi eich atebion ac arbed y ddogfen gan ddefnyddio enw ffeil priodol. Yna, fe allwch gyflwyno'r ddogfen wedi'i chwblhau trwy ddewis 'Lanlwytho ffeiliau'.



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

Anfonwch e-bost at y tîm achos ar connahsquay@planninginspectorate.gov.uk versiwn Microsoft Word hon o gwestiynau ysgrifenedig yr ExA, cofnodwch eich atebion ac arbedwch y ddogfen gan ddefnyddio enw ffeil priodol. Yna, fe allwch gyflwyno'r ddogfen wedi'i chwblhau trwy ddewis 'Gwneud sylw' ac yna 'Lanlwytho ffeiliau'.



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

Acronymau a Thalfyriadau a ddefnyddir:

AEol	Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd
AGI	Gosodiad ar Ben y Tir
AIL	Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin
ALC	Dosbarthiad Tir Amaethyddol
AoC	Digonolrwydd Ymgynghori
AQAL	Lefelau Asesu Ansawdd Aer
AQMA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
Erth	Erthygl
ALA1981	Deddf Caffael Tir 1981
BMV	(Tir) Gorau a Mwyaf Amlbwrpas
C&IEA	Ardal Adeiladu a Gwella Dangosol
BoR	Llyfr Cyfeirio
CA	Caffael Gorfodol
CAH	Gwrandawriad Caffael Gorfodol
CCGT	Tyrbin Nwy Cylch Cyfun
CCP	Cyfarpar Dal Carbon
CCS	Dal a Storio Carbon
CCUS	Dal, Defnyddio a Storio Carbon
CEMP	Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu
CMTP	Cynllun Teithio Rheoli Adeiladu
CO2	Carbon Deuocsid
CoMAH	Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr
CQLCP	Pŵer Carbon Isel Cei Connah
CWTP	Cynllun Teithio Gweithwyr Adeiladu
DCO	Gorchymyn Cydsyniad Datblygu
dDCO	Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

DEMP	Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu
DMRB	Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd
DNS	Cymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy
EM	Memorandwm Esboniadol
EMF	Maes Electro-Magnetig
EN-1	Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni
EN-2	Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Trydan Nwy Naturiol
EN-4	Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy Naturiol a Phiblinellau Nwy ac Olew
EN-5	Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan
ES	Datganiad Amgylcheddol
ExA	Awdurdod Archwilio
FCC	Cyngor Sir y Fflint
FEED	Dyluniadau Peirianeg Pen Blaen
FLDP	Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint
ha	Hectarau
HAT	Llanw Seryddol Uchaf
HE	Historic England (Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr)
HGV	Cerbydau Nwyddau Trwm
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ISH	Gwrandawriad Mater Penodol
LAT	Llanw Seryddol Isaf
LIR	Adroddiad ar yr Effaith Leol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
LSE	Effaith Arwyddocaol Debygol
MCA	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
MDA	Prif Ardal Ddatblygu
MHWS	Penllanw Cymedrig y Gorllanw
MMO	Y Sefydliad Rheoli Morol
MSL	Lefel Cymedrig y Môr



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

NE	Natural England
NGET	National Grid Electricity Transmission
NH3	Amonia
NOX	Nitrogen Ocsid
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
NRA	Asesiad Risg Mordwyol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
NTS	Crynodeb Annhechnegol
OD	Datwm Ordnans
OFH	Gwrandawriad Llawr Agored
OLEMP	Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol
OSWDS	Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol
PHW	Iechyd Cyhoeddus Cymru
PRoW	Hawl Tramwy Cyhoeddus
RIHRA	Adroddiad i Lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
RR	Sylw Perthnasol
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
SCR	Lleihau Catalytig Detholus
SOCG neu	
SoCG	Datganiad Tir Cyffredin
SoS	Yr Ysgrifennydd Gwladol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SUDS	Strategaeth (neu System) Ddraenio Gynaliadwy
TCE	Ystad y Goron
TP	Meddiant Dros Dro
TPO	Gorchymyn Cadw Coed
UKHSA	Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig
UXO	Ordnans Heb Ffrwydro



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

VP	Golygfan
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
WNMP	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
ZoI	Parth Dylanwad

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (er enghraifft [APP-0XX]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol: [Dolen i Lyfrgell yr Archwiliad](#)

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarw wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

Dyfynnu cwestiynau

Dylid dyfynnu cwestiynau yn y tabl hwn fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, er enghraifft mae ExQ1 1.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

Mynegai

1	Cwestiynau cyffredinol a thrawsbynciol	8	18	Y Newid yn yr hinsawdd.....	20
2	Dylunio, paramedrau a manylion eraill y datblygiad arfaethedig	8	19	Iechyd dynol.....	21
3	Dewisiadau amgen y prosiect	8	20	Damweiniau mawr a thrychinebau	21
4	Polisi cynllunio	8	21	Deunyddiau a gwastraff	22
5	Angen	9	22	Effeithiau cronol a chyfunol	22
6	Ansawdd aer	9	23	Gorchymyn cydsyniad datblygu [APP-019].....	23
7	Sŵn a dirgryniad.....	12		Erthyglau	23
8	Traffig a thrafnidiaeth.....	13		Atodlen 2 – Gofynion.....	24
9	Ecoleg ddaearol a dyfrol	14	24	Caffael gorfodol, meddiant dros dro ac ystyriaethau tir neu hawliau eraill	24
10	Ecoleg forol.....	18			
11	Yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd.....	18			
12	Daeareg a chyflwr y tir	19			
13	Y dirwedd ac amwynder gweledol	19			
14	Prosesau Ffisegol.....	19			
15	Treftadaeth ddaearol	20			
16	Treftadaeth forol	20			
17	Materion economaidd-gymdeithasol, hamdden a thwristiaeth	20			

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
1 Cwestiynau cyffredinol a thrawsbynciol		
Q1.1	Yr ymgeisydd	Rhaglen adeiladu gydamserol neu fesul cam ([APP-040] Cyf: 6.2.2.17) Beth yw’r prif ffactorau a rhesymau a fydd yn dylanwadu ar benderfynu p’un ai adeiladu’r trenau ar yr un pryd (yn gydamserol) neu’n olynol (fesul cam), a sut gallai hyn esblygu yn ystod yr archwiliad i helpu i fireinio hyd cyffredinol y cyfnod adeiladu a’i effeithiau?
Q1.2	Yr ymgeisydd	Yr orsaf bŵer bresennol ([APP-040] Cyf: 6.2.2.2.23) Os bwriedir cadw’r orsaf bŵer bresennol yng Nghei Connah, pam na fydd y gwaith yn parhau i weithredu ar gapasiti llawn, o bosibl?
Q1.3	Yr ymgeisydd	Rhyngweithio â datblygiad arfaethedig HyNet Beth fydd yn digwydd os na fydd datblygiad arfaethedig HyNet yn weithredol ac yn barod i ymdopi â’r allbwn CO2 o ddatblygiad arfaethedig Cei Connah, a beth yw’r cynlluniau wrth gefn os bydd hyn yn digwydd neu os na fydd yn cael ei ddatblygu?
2 Dylunio, paramedrau a manylion eraill y datblygiad arfaethedig		
Q2.1	Yr ymgeisydd	Yr orsaf bŵer bresennol ([APP-043] Cyf: 6.2.5.2.1) Sut mae dymchwel y Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) yn y Brif Ardal Ddatblygu (MDA) yn effeithio ar weithredu gorsaf bŵer bresennol Cei Connah?
Q2.2	Yr ymgeisydd	Dylunio da (Cyf: NPS EN-1 4.7) Ble mae’r dystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cymhwyso “dylunio da” i’r cynnig a gwneud gwelliannau yn unol ag NPS EN-1? Yn arbennig, pa ddulliau dylunio a ddefnyddiwyd i helpu i ffurfio’r themâu canlynol: - Estheteg i gydbwyso natur sensitif y datblygiad yn y dirwedd ynghyd ag amlygu’r angen dybryd amdano’n genedlaethol a’i bwysigrwydd i gynhyrchu ynni cenedlaethol a chefnogi’r economi leol - Aildefnyddio’r datblygiad arfaethedig mewn senario ynni neu senario arall yn y dyfodol - Cydnabod yr hanes hir o gynhyrchu ynni ar y safle a’i gefnogaeth i’r angen cenedlaethol am ynni, ac; - Cydnabod hanes diwylliannol y safle a’r angen i ddarparu ar gyfer cenedlaethau Cymru yn y dyfodol?
3 Dewisiadau amgen y prosiect		
Q3.1	Yr ymgeisydd	Dethol Safle Pa opsiynau amgen a ystyriwyd ar gyfer cynhyrchu’r un allbwn pŵer, cymorth i NGET ac effeithlonrwydd carbon ar y safle?
Q3.2	Yr ymgeisydd	Dethol Safle Pa leoliadau amgen a ystyriwyd ar gyfer lleoli’r datblygiad arfaethedig y tu allan i derfynau’r gorchymyn?
Q3.3	Yr ymgeisydd	Yr orsaf bŵer bresennol Pam na roddwyd ystyriaeth bellach i’r opsiwn o osod y Cyfarpar Dal Carbon (CCP) yn yr orsaf bŵer bresennol a pham nad oedd hyn yn opsiwn “Gwneud y Lleiaf Posibl” hyfyw?
4 Polisi cynllunio		
Q4.1	Yr ymgeisydd	Gweithredu’r datblygiad arfaethedig heb systemau rheoli carbon ([APP-045] Cyf: 6.2.7.3.2) Pa amod sydd ar waith i sicrhau nad yw’r gwaith yn gweithredu’n barhaus heb systemau rheoli carbon?

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q4.2	Yr ymgeisydd	Gweithredu’r datblygiad arfaethedig heb systemau rheoli carbon ([APP-045] Cyf: 6.2.7.3.2) Pa amodau a gynigir i sicrhau mae’r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth a’r ymrwymiad yn NPS EN-1 i sicrhau na fydd mwy na 5% o’r ynni a gynhyrchir yn dod o waith nwy heb systemau rheoli carbon?
Q4.3	Yr ymgeisydd	Gweithredu’r datblygiad arfaethedig heb systemau rheoli carbon ([APP-045] Cyf: 6.2.7.3.13) Sut mae gweithredu’r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â’r trothwy 90% a osodir yn NPS EN-1?
Q4.4	Yr Ymgeisydd Cyngor Sir y Fflint (FCC)	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ([APP-045] Cyf: 6.2.7.3.34) Sut mae’r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â’r Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
Q4.5	Yr ymgeisydd FCC	Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ([APP-045] Cyf: 6.2.7.4.11) Sut mae’r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru?
Q4.6	Yr ymgeisydd FCC	Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint ([APP-045] Cyf: 6.2.7.4.17) Sut mae’r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint?
5 Angen		
Q5.1	Yr ymgeisydd	Amllder gweithredu Beth yw’r nifer debygol o weithrediadau ac amllder gweithredu’r datblygiad arfaethedig i ategu’r rhwydwaith NGET, a hefyd ailgychwyn y rhwydwaith yn dilyn colli pŵer yn llwyr, o bosibl?
Q5.2	Yr ymgeisydd	Amllder gweithredu ([APP-042] Cyf: 6.2.4.2.12) Awgrymir y bydd y datblygiad arfaethedig yn weithredol am chwarter o’r amser, fel arfer, i fodloni gofynion rhwydwaith NGET. Sut gallai hyn newid ar hyd oes y datblygiad arfaethedig?
Q5.3	Yr ymgeisydd	Adfer y system A fydd y datblygiad arfaethedig yn gallu adfer rhwydwaith NGET a sut bydd y safle’n gweithredu i adfer y rhwydwaith yn ystod y cyfnod colli pŵer dros dro?
6 Ansawdd aer		
Q6.1	Yr ymgeisydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	Parth Dylanwad (Zol) ar gyfer effeithiau ar iechyd dynol ([APP-037] Cyf: 6.2.1 NTS) Pam y mabwysiadwyd Zol 2km ar gyfer ystyried effaith allyriadau ar iechyd dynol? Ac a yw hyn yn rhesymol o ystyried dosbarthiad ffrydiau?
Q6.2	Yr ymgeisydd CNC	Lefelau llygryddion cefndir Nodir bod lefelau llygryddion cefndir eisoes yn uchel yng nghyffiniau’r datblygiad arfaethedig. O ystyried y cydnabyddir y bydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu atynt i raddau mor fach ag sy’n ymarferol, sut bydd hyn yn effeithio ar y lefelau llygredd cyffredinol, ac a ellid gwneud mwy i reoli llygredd o’r datblygiad arfaethedig er mwyn lleihau hyn ymhellach a helpu i fynd i’r afael â’r lefelau cefndir uchel presennol a’u gwella?
Q6.3	Yr ymgeisydd	Dosbarthiad ffrydiau gronynnau sy’n cael eu hallyrru a chyfeiriad y gwynt

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	CNC	Mae’n ymddangos bod dosbarthiad gronynnau o’r allyriadau yn dibynnu ar brif gyfeiriad y gwynt. Sut gallai’r dosbarthiad gronynnau hyn newid yn y dyfodol wrth i batrymau’r gwynt newid neu o ganlyniad i’r newid yn yr hinsawdd?
Q6.4	Yr ymgeisydd CNC	Effeithiau’r gwynt a thopograffeg leol Sut mae’r dopograffeg leol a strwythurau cyfagos yn effeithio ar batrymau’r gwynt ar y safle a pha mor debygol yw’r effeithiau hyn o achosi i allyriadau gronynnau gronni mewn cymunedau neu gynefinoedd cyfagos?
Q6.5	Yr ymgeisydd CNC	Uchderau staciau ([APP-183] Cyf: App 8D 1.5.3) Sut bydd gostyngiad neu gynydd nominal mewn uchderau staciau yn effeithio ar ddyddodion lleol a dosbarthiad allyriadau? Yng ngoleuni’r cais am gael gwneud newid arfaethedig, esboniwch sut y disgwylir i unrhyw ostyngiad i uchder stac beidio â chynyddu crynodiadau llygryddion.
Q6.6	Yr ymgeisydd CNC	Gwasgariad aminau ([APP-099] Cyf: Fig 8.8) Beth yw’r rheswm dros y dosbarthiad aminau a nodwyd, o’r de-orllewin i’r gogledd-ddwyrain, sy’n berpendicwlar yn fras i brif gyfeiriad y gwynt ar y safle?
Q6.7	Yr ymgeisydd CNC	Dyddodion nitrogen ([APP-104] Cyf: Fig 8.13) Pam nad yw’n ymddangos bod y gronynnau’n cael eu gwasgaru i’r cyfeiriad de-orllewinol? Hefyd, pam mae’r ffrwd ddosbarthu’n gryfach i’r gogledd-orllewin o gymharu â’r llif ffrwd de-ddwyreiniol?
Q6.8	Yr ymgeisydd CNC	Amrywiad i wasgariad ar gyfer amodau gyda systemau rheoli carbon a hebddynt (Cyf: Ffigurau 8) Beth yw’r rheswm dros yr amrywiad i gyfeiriad de-orllewinol ffrydiau ar gyfer yr amodau gyda systemau rheoli carbon o gymharu â’r amodau hebddynt?
Q6.9	Yr ymgeisydd CNC	Dyddodion nitrogen ac amonia Mae’r dogfennau’n nodi cynnydd mewn dyddodion cyfansoddion nitrogen ac amonia o fewn y safleoedd dynodedig a chynefinoedd lleol. Beth yw canlyniadau hyn, y mesurau lliniaru ar gyfer pob safle a chanlyniadau tebygol unrhyw gynydd gweddilliol yn y lefelau hyn ar y safleoedd?
Q6.10	CNC Natural England (NE)	HRA: Modelu ansawdd aer A yw NE ac NRW yn fodlon ar y modelu ansawdd aer sydd wedi’i gynnal (atodiad ES 8-D [APP-183]) i lywio'r asesiad o lygredd atmosfferig ar safleoedd Ewropeaidd?
Q6.11	CNC Natural England (NE)	HRA: Mesurau lliniaru allyriadau llwch Mae’r ymgeisydd wedi egluro yn ei Ymateb i Sylwadau Perthnasol [REP1-062] bod y mesurau lliniaru a gynigir i reoli allyriadau llwch yn ystod adeiladu yn fesurau ymgorfforedig safonol ac y byddent yn cael eu cynnwys yng nghynigion y prosiect ni waeth am bresenoldeb safleoedd Ewropeaidd. A yw NE a CNC yn fodlon bod y mesurau lliniaru a gynigir i reoli allyriadau llwch wedi’u hymgorffori yn y datblygiad arfaethedig ac yn cyd-fynd â dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos People Over Wind, ac felly y gellir eu hystyried yn ystod y cam sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)?
Q6.12	Yr ymgeisydd	HRA: Dyddodiad asid o allyriadau gwacáu – adeiladu A all yr ymgeisydd gyfeirio at yr asesiad o ddyddodiad asid sy’n deillio o draffig adeiladu yn ACA, SPA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle? Os nad oes asesiad wedi’i gynnal, darparwch asesiad o ddyddodiad asid sy’n deillio o draffig adeiladu neu darparwch gyfiawnhad clir yn egluro pam nad yw dyddodiad asid o draffig adeiladu wedi’i asesu yn yr RIHRA [APP-253] .
Q6.13	NE	HRA: Nodweddion safleoedd Ewropeaidd – llyriad-y-dŵr arnofiol Mae’r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ychwanegol yn ei Ymateb i Sylwadau Perthnasol [REP1-062] i esbonio pam na ystyriwyd y nodwedd gymwys llyriad-y-dŵr arnofiol (<i>Luronium natans</i>) wrth asesu llygredd atmosfferig i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. A yw NE o’r farn bod y cyfiawnhad a roddwyd gan yr ymgeisydd yn dderbyniol neu a ddylai’r ymgeisydd ddarparu asesiad o’r potensial i lygredd atmosfferig gael Effaith Arwyddocaol Debygol (LSE) ar boblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol (<i>Luronium natans</i>) o fewn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid?

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q6.14	Yr ymgeisydd	HRA: Nodweddion safleoedd Ewropeaidd - llyriad dŵr arnofiol Mae amcanion cadwraeth nodwedd gymhwysu llyriad dŵr arnofiol ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala yn nodi y bydd “gan y llyn gynefin digonol i gynnal poblogaethau presennol L. natans o fewn eu dosbarthiad presennol ac ar gyfer ehangu yn y dyfodol”. Gan nodi sylwadau NE [RR-026] yn gofyn y dylai'r asesiad ansawdd ystyried ehangu poblogaethau llyriad dŵr arnofiol, a all yr ymgeisydd egluro pam na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn rhwystro amcanion cadwraeth ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala?
Q6.15	NE	ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid – Llygredd atmosfferig yn sgil allyriadau egsôst A yw NE yn fodlon ar gasgliad yr ymgeisydd na fyddai'r lefelau amonia (NH3) a nitrogen (NOx) critigol yn cael eu torri yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn ystod adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig? Os na, pa dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn i'r ymgeisydd gyfiawnhau ei gasgliad?
Q6.16	Yr ymgeisydd	HRA: ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala – Allyriadau gwacáu llygredd atmosfferig Mae Ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Perthnasol [REP1-062] yn cyfeirio at baragraff 7.2.56 o'r RIHRA [APP-253] i esbonio na fyddai'r lefelau critigol ar gyfer amonia (NH3) a nitrogen (NOx) yn cael eu rhagori yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala/Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ar eu pen eu hunain nac ar y cyd yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, mae paragraff 7.2.56 yn nodi'r data ar gyfer llygredd atmosfferig o allyriadau gwacáu yn ystod y cyfnod adeiladu ac ni ddarperir unrhyw wybodaeth i esbonio na fyddai'r lefelau critigol yn cael eu rhagori yn yr ACA hwn yn ystod y cyfnod gweithredu. Ni ddarperir unrhyw ddata pellach ym mharagraff 7.3.38 o'r RIHRA [APP-253] . A all yr ymgeisydd ddarparu neu gyfeirio at ble mae'r wybodaeth berthnasol wedi'i lleoli yn nogfennau'r cais, gan esbonio na fyddai'r lefelau critigol yn cael eu rhagori yn yr ACA hwn yn ystod y cyfnod gweithredu?
Q6.17	NE	Llygredd atmosfferig mewn safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol – Adeiladu A yw NE yn fodlon bod y pryderon a godwyd yn ID NE35 yn ei sylw perthnasol [RR-026] wedi derbyn sylw ym mhennod 8, tabl 8-5 [APP-046] y Datganiad Amgylcheddol (ES)?
Q6.18	CNC NE	Llygredd atmosfferig yn ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy – Rhanddirymiadau Mae'r RIHRA [APP-253] yn cynnig y byddai'r mesurau y dibynnwyd arnynt ar gyfer colli dolydd heli'r lwerydd (ymestyn hyd rheoli dolydd heli'r lwerydd o fewn ardaloedd cadwraeth presennol Cei Connah sy'n cael eu rheoli gan yr ymgeisydd; a chaniatáu i brosesau arfordirol naturiol ailddechrau i'r de o'r orsaf bŵer bresennol i ohirio cyfradd y wasgfa arfordirol yn sylweddol) hefyd yn gwrthbwysu effaith ecolegol dyddodiad nitrogen yn ystod gweithrediad ar safle ACA/SPA/Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Mae'r ExA a'r NE [RR-026] yn ystyried bod y mesurau hyn yn gyfystyr ag iawndal mewn perthynas â llwybr effaith colli cynefinoedd yn uniongyrchol. Felly, gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu, ar sail heb ragfarn, achos rhanddirymiadau, amserlenni DCO heb ragfarn, a Chynllun(iau) Gweithredu a Monitro iawndal heb ragfarn ynghylch llwybr effaith llygredd atmosfferig ar safle ACA, SPA a Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
Q6.19	Yr ymgeisydd	Llygredd atmosfferig yn Aber Afon Dyfrdwy/Aber Dyfrdw ACA, AGA a safle Ramsar Yn eu cynrychiolaeth berthnasol, mae NE (ID NE47) [RR-026] yn nodi nad yw'n glir a fyddai'r mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer llygredd atmosfferig yn mynd i'r afael â'r effeithiau o fewn rhan Seisnig o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. A all yr ymgeisydd egluro sut y byddai'r mesurau arfaethedig yn lliniaru effeithiau posibl llygredd atmosfferig o fewn rhan Seisnig o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy?
Q6.20	Yr ymgeisydd	Llygredd atmosfferig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle – Lliniaru Mae paragraffau 10.3.15 i 10.3.20 o'r RIHRA [APP-253] yn disgrifio'r lliniaru arfaethedig ar gyfer dyddodiad nitrogen ar Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle sy'n ofynnol i osgoi AEol o'r safle dynodedig. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r cyfraniad ariannol arfaethedig hefyd yn cael ei gynnig fel lliniaru ar gyfer yr effeithiau botanegol sy'n gysylltiedig ag amonia. A all yr ymgeisydd gadarnhau a yw'r cyfraniad ariannol hefyd yn cael ei gynnig fel lliniaru ar gyfer amonia ac os felly, egluro sut y mae'r ddau lygrydd wedi'u hystyried yn y ddarpariaeth ariannol i'r safle? Os na, esboniwch sut y byddai'r effeithiau botanegol posibl o amonia yn cael eu lliniaru?
Q6.21	Yr ymgeisydd	Effaith lleihau uchder simnai ar asesu llygredd atmosfferig Mae'r hysbysiad newid [AS-006] yn nodi'r gostyngiad arfaethedig yn uchder y simneiau allyriadau. A all yr ymgeisydd esbonio sut y byddai'r newidiadau i uchder y simneiau allyriadau yn newid casgliadau'r asesiad o lygredd atmosfferig ar safleoedd Ewropeaidd o fewn yr RIHRA [APP-253] ? Dylai'r ymgeisydd amlygu a fyddai'r newidiadau i uchder y simnai yn newid y casgliadau o ran LSE ac AEol yn ogystal â'r gofynion ar gyfer mesurau lliniaru a/neu iawndal. Dylid diweddarau'r RIHRA [APP-253] i gynnwys y wybodaeth hon fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r RIHRA, i'w gyflwyno erbyn dyddiad cau 4 fan bellaf.
Q6.22	Yr ymgeisydd	Llygredd atmosfferig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle – Uchder y Simnai

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A oes gan y gostyngiad arfaethedig yn uchder y simnai yn yr hysbysiad newid sydd ar ddod [AS-006] y potensial i gynyddu cyfraddau dyddodiad amonia a/neu nitrogen a newid y lliniaru sy'n ofynnol i osgoi AEol o ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle?
Q6.23	CNC	Llygredd atmosfferig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle A yw CNC yn fodlon bod y cyfraniad ariannol a gynigir gan yr ymgeisydd i liniaru effeithiau dyddodiad nitrogen ac amonia (os bwriedir i'r cyfraniad ariannol hefyd liniaru amonia - mae'r mater hwn yn dal i fod heb ei ddatrys gyda'r ymgeisydd) ar ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle yn gyfystyr â lliniaru yn hytrach nag iawndal? Os nad ydych, rhowch eich rhesymeg a pha dystiolaeth bellach fyddai ei hangen ar yr ymgeisydd i gyfiawnhau ei gasgliad?
Q6.24	The applicant	Llygredd atmosfferig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle – Lliniaru Mae'r ymgeisydd [REP1-062] yn cynnig sicrhau'r cyfraniad ariannol i liniaru effeithiau botanegol dyddodiad nitrogen ar Ardal Cadwraeth Arbennig Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle drwy Gytundeb Adran 106 gyda Chyngor Sir y Fflint (CSF). Mae'r ymgeisydd hefyd yn nodi y bydd y cytundeb yn cael ei lofnodi cyn diwedd yr archwiliad. Felly gofynnir i'r ymgeisydd: a) Eglurwch pam y dewiswyd cytundeb Adran 106 fel y dull mwyaf priodol i sicrhau'r lliniaru hwn a chyfiawnhewch pam nad yw'r mesur hwn wedi'i sicrhau trwy ofyniad yn y dDCO. b) Darparwch ddrafft o'r cytundeb Adran 106 gyda'r FCC, dim hwyrach na dyddiad cau 4.
Q6.25	CNC	Llygredd atmosfferig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle Mae'r ymgeisydd yn cynnig sicrhau'r cyfraniad ariannol tuag at ddyddodiad nitrogen ac effeithiau amonia (os bwriedir i'r cyfraniad ariannol hefyd liniaru amonia - mae'r mater hwn yn dal i fod heb ei ddatrys gyda'r ymgeisydd) ar ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle trwy Gytundeb Adran 106. A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod hwn yn ddull priodol o sicrhau'r lliniaru perthnasol?
Q6.26	FCC	Llygredd atmosfferig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle Mae'r ymgeisydd yn cynnig sicrhau'r cyfraniad ariannol tuag at ddyddodiad nitrogen ac effeithiau amonia (os bwriedir i'r cyfraniad ariannol hefyd liniaru amonia - mae'r mater hwn yn dal i fod heb ei ddatrys gyda'r ymgeisydd) ar ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle trwy Gytundeb Adran 106 gyda'r Cyngor Sir. A yw'r Cyngor Sir yn fodlon bod hwn yn ddull priodol o sicrhau'r lliniaru perthnasol? Os felly, a ydych chi'n fodlon darparu llythyr cefnogi mewn egwyddor ar gyfer y dull hwn.
7 Sŵn a dirgryniad		
Q7.1	Yr ymgeisydd	Lliniaru sŵn traffig ar gyfer preswylwyr lleol ([APP-047] Cyf: 6.2.9.6.27) Pa fesurau lliniaru ychwanegol y gellid eu darparu i leihau effeithiau sŵn traffig sy'n deillio o'r symudiadau brig yn ystod y cyfnod adeiladu ar breswylwyr lleol, yn enwedig y rhai sy'n agos i Kelsterton Road?
Q7.2	Yr ymgeisydd	Lefelau sŵn cefndir sylfaenol ar gyfer derbynyddion preswyl Oherwydd bod preswylfeydd eisoes yn bodoli'n agos i'r datblygiad presennol, honnwyd bod derbynyddion preswyl presennol eisoes yn gyfarwydd â lefelau sŵn cefndir uwch nag arfer a'u bod yn eu derbyn. Ble mae'r dystiolaeth i ategu hyn a beth yw safbwynt y poblogaethau lleol presennol ynglŷn â lefelau sŵn o ddatblygiad presennol Uniper ar y safle a sut y bydd yr allyriadau lefel sŵn newydd arfaethedig yn effeithio ar hyn?
Q7.3	Yr ymgeisydd FCC	Oriau a diwrnodau gwaith A all yr ymgeisydd egluro a chadarnhau bod yr oriau a'r diwrnodau gwaith arfaethedig yn gytûn rhwng ei raglen adeiladu, yr amseriadau a ddefnyddir yn yr astudiaethau asesu sŵn a thraffig a'r argymhellion a'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Sir y Fflint?
Q7.4	Yr ymgeisydd	Potensial ar gyfer dirgryniadau wrth eiddo cyfagos Roedd preswylwyr eiddo gerllaw'r safle wedi nodi dirgryniadau yn ystod adeiladu'r gorsafodd pŵer gwreiddiol a phresennol. Beth yw'r risg a'r tebygolrwydd y gallai dirgryniadau tebyg ddigwydd yn ystod y datblygiad arfaethedig o weithgareddau fel sŵn ergydol wrth osod seilbyst yn ystod y cam adeiladu neu driniaethau tir dirgryniadol eraill, yn ogystal â dirgryniad harmonig sy'n deillio o weithredu'r cyfarpar, y tyrbinau a pheiriannau trwm eraill yn ystod gweithredu'r datblygiad?
Q7.5	CNC	HRA: sŵn ac aflonyddwch gweledol yn AGA Aber Afon Dyfrdwy a safle Ramsar

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â dull a chasgliadau'r ymgeisydd o ran asesu aflonyddwch sŵn i nodweddion cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn ystod gweithrediad y datblygiad arfaethedig?
Q7.6	CNC	HRA: sŵn a tharfu gweledol – dyfrgi A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â dull a chasgliadau'r ymgeisydd o ran asesu sŵn ac aflonyddwch gweledol i ddyfrgwn sy'n chwilota am fwyd ac yn cymudo (nodwedd gymhwyso ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid) yn ystod adeiladu, dymchwel a gweithredu'r datblygiad arfaethedig?
8 Traffig a thrafnidiaeth		
Q8.1	Yr ymgeisydd	Gwaith ar opsiynau llwybrau llwythi anwahanadwy anghyffredin (AIL) Ar hyn o bryd, mae'r cais yn amlygu tri llwybr posibl ar gyfer symud llwythi anwahanadwy anghyffredin (AIL). Pryd y bwriedir penderfynu ar opsiwn, ac a yw'n debygol o ddigwydd yn ystod yr archwiliad? Os felly, a fydd terfynau'r gorchymyn a hyd a lled yr asesiad ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn cael eu lleihau yn unol â hynny; neu Os na, a all yr ymgeisydd roi cyfiawnhad rhesymol dros bwyso a mesur aflonyddu ac ystyriaeth o ganlyniad i hyd a lled y briffordd sydd dan sylw? Yn ogystal, a all yr ymgeisydd gyfiawnhau ymhellach yr angen i ddefnyddio pwerau o fewn terfynau'r gorchymyn yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddio deddfwriaeth a thrwyddedu ar gyfer symudiadau AIL, sy'n fwy arferol?
Q8.2	Yr ymgeisydd National Highways Awdurdod Priffyrdd FCC	Amseru cyfrifiadau traffig Nodir y cynhaliwyd cyfrifiadau traffig i asesu'r lefelau traffig cefndir ar y safle ym mis Mawrth a mis Ebrill yn unig. A all yr ymgeisydd esbonio sut gallai'r ffigurau hyn amrywio ar adegau eraill o'r flwyddyn a ph'un a fyddent yn cynnwys unrhyw symudiadau brig sy'n gysylltiedig â'r tymor gwyliau neu gyfnodau prysur tymhorol eraill ar gyfer y rhanbarth a'r ardal, fel digwyddiadau awyr agored mawr?
Q8.3	Yr ymgeisydd National Highways Awdurdod Priffyrdd FCC	Symudiadau cerbydau nwyddau trwm (HGV) ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ([APP-048] Cyf: 6.2.10 Tabl 10.19) Pa fesurau lliniaru y mae'r ymgeisydd wedi'u hystyried i leihau a dosbarthu symudiadau HGV o amgylch y ffordd a'r cyffyrdd ar hyd Kelsterton Road?
Q8.4	Yr ymgeisydd National Highways Awdurdod Priffyrdd FCC	Cynnydd mewn symudiadau traffig ([APP-048] Cyf: 6.2.10.7.1) Pa dystiolaeth sydd ar gyfer casgliad yr ymgeisydd nad oes angen mesurau lliniaru ar gyfer y cynnydd mewn symudiadau traffig ar y rhwydwaith ffyrdd lleol?
Q8.5	Yr ymgeisydd	Defnyddio'r fynedfa amgen i'r brif ardal ddatblygu A all yr ymgeisydd egluro beth yw'r senario tebygol ar gyfer defnyddio'r fynedfa amgen i'r brif ardal ddatblygu, tebygolrwydd defnyddio'r llwybr hwn, y mathau nodweddiadol o gerbydau ac amllder defnydd, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r llwybr o gymharu â'r prif lwybr mynediad arfaethedig?
Q8.6	Yr ymgeisydd Cymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy (DNS)	Mynedfa amgen i'r warchodfa bywyd gwyllt a'r cuddfannau ([APP-042] Cyf: 6.2.4.4.6 ac [APP-043] Cyf: 6.2.5.6.17) Pryd bydd y trefniadau mynediad amgen i'r warchodfa bywyd gwyllt a'r cuddfannau ar waith a sut bydd hyn yn cael ei reoli drwy gydol y cyfnod adeiladu ac, yn olaf, ar ôl ac yn ystod defnydd gweithredol y datblygiad arfaethedig?
Q8.7	Yr ymgeisydd Airbus	Risg awyrennau'n gwrthdaro â staciau yn y datblygiad arfaethedig Deëllir y gallai cais am gael gwneud newid fod ar y ffordd a fydd yn arwain at leihau uchder y staciau arfaethedig. A all yr ymgeisydd ac Airbus gadarnhau bod risgiau'r datblygiad arfaethedig i hedfanaeth wedi cael eu lleihau i lefel mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol a pha risgiau gweddilliol sy'n parhau?
Q8.8	Yr ymgeisydd	Risg gwrthdrawiad morol â llongau (Cyf: [RR-044])

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA)	Er gwaethaf cynnwys yr asesiad risg mordwyo a baratowyd, a all yr ymgeisydd a’r MCA gadarnhau eu bod wedi dod i gytundeb er mwyn sicrhau bod y risgiau sy’n gysylltiedig â symudiad cynlluniedig unrhyw longau yn ardal Afon Dyfrdwy, ac yn enwedig o ran yr awdurdodau porthladdoedd a harbyrau dynodedig yn yr ardal, wedi cael eu lleihau i lefel mor isel ag sy’n rhesymol ymarferol?
9	Ecoleg ddaearol a dyfrol	
Q9.1	Yr ymgeisydd DNS	Atgyweiriadau i’r pyllau llifddor a’r cuddfannau presennol (Cyf: 13 sylw perthnasol) A all yr ymgeisydd fynd i’r afael â’r ceisiadau niferus a dderbyniwyd gan aelodau DNS ynglŷn â’r potensial i adfer y trefniadau pwll llifddor a’r posibilrwydd o gynnwys yr adferiad hwn yn y gwaith adfer? A yw’r cuddfannau adar presennol o fewn terfynau’r gorchymyn, ac a ellid gwneud gwaith gwella arnynt yn rhan o’r datblygiad arfaethedig ac a ellir eu cynnal yng Nghymru fel datblygiad cysylltiedig?
Q9.2	Yr ymgeisydd CNC NE	Dyddodi allyriadau ar y cynefinoedd cyfagos Beth yw cwantwm tebygol ac effeithiau cysylltiedig dyddodi allyriadau o’r datblygiad arfaethedig ar gynefinoedd cyfagos, gan gynnwys y safleoedd dynodedig a safleoedd natur lleol? Beth yw effeithiau dyddodion nitrogen ychwanegol ar ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac a all yr ymgeisydd egluro sut y’u lliniarwyd?
Q9.3	Yr ymgeisydd CNC NE	Safle cae Gronant ([APP-254] Cyf: 6.13) Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau safle cae Gronant a beth yw’r dewisiadau amgen os bydd hyn yn methu? A yw safle cae Gronant eisoes o fewn safle dynodedig, neu eisoes yn dir sydd wedi’i gysylltu’n swyddogaethol â safle dynodedig? A yw cae Gronant eisoes wedi cael ei sicrhau fel cynefin cydbwyso ar gyfer gweithgareddau eraill, fel gwasgfa arfordirol a amlygwyd yn y cynllun rheoli traethlin, ac a oes perygl ychwanegedd gyda strategaethau neu gynlluniau eraill? Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod safle cae Gronant eisoes yn cael ei ddefnyddio gan rywogaethau eraill, yn enwedig rhywogaethau cofrestredig, a pha effeithiau tebygol y gallai’r bwriad i adleoli rhywogaethau ychwanegol i’r safle eu cael ar y rhywogaethau presennol hyn? A all safle Gronant ymdopi â phoblogaeth uwch os yw eisoes yn cael ei ddefnyddio? Sut gallai rhywogaethau presennol sy’n defnyddio’r tir sydd wedi’i gysylltu’n swyddogaethol yng Nghei Connah gael eu hannog i ddefnyddio’r safle sydd newydd ei sicrhau yng Ngronant? A ddylai safle cae Gronant fod o fewn terfynau arfaethedig y gorchymyn? Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod defnyddio safle Gronant yn fesur lliniaru ac nid digolledu o ran y broses a amlinellir yn y Rheoliadau Cynefinoedd a chanllawiau llywodraeth y DU?
Q9.4	Yr ymgeisydd CNC NE DNS	Tir sydd wedi’i gysylltu’n swyddogaethol gerllaw gorsaf bŵer bresennol Cei Connah Pa dystiolaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd i ddangos faint o ddefnydd a wneir o’r tir sydd wedi’i gysylltu’n swyddogaethol gerllaw gorsaf bŵer bresennol Cei Connah?
Q9.5	Yr ymgeisydd Natural England	Pryderon a godwyd ynglŷn â gallu Natural England i ymgysylltu â’r archwiliad (Cyf: [AoC-003] ac [RR-026]) A all yr ymgeisydd a Natural England egluro eu safbwyntiau unigol ynglŷn â gallu Natural England i ymgysylltu â’r archwiliad a beth ellir ei wneud i helpu i sicrhau bod yr ExA yn derbyn sylwadau gwerthfawr ganddynt? A all Natural England ailddatgan eu hymrwymiad i gefnogi'r archwiliad a hefyd gydweithio â chyrff cadwraeth natur statudol eraill gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod barn gyffredinol ar faterion yn cael ei darparu i’r ExA?
Q9.6	Yr ymgeisydd CNC	Cynefin presennol ar safle’r datblygiad arfaethedig ([APP-085] Cyf: Ffigur 5.5 Dalen 2 o 2)

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A yw safle'r orsaf bŵer bresennol yn cael ei ddangos fel cynefin a gedwir? Os felly, a yw'n cyfrif tuag at greu cynefin newydd neu a yw'n ofyniad mewn amodau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad presennol, sy'n golygu na ellir ei gyfrif tuag at unrhyw gynnydd net newydd i fioamrywiaeth?
Q9.7	Yr ymgeisydd CNC	Llwybr hedfan adar Beth yw'r risgiau a'r effeithiau ar lwybrau hedfan adar sy'n defnyddio'r safleoedd dynodedig a'r tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol o ganlyniad i'r staciau newydd yn y datblygiad arfaethedig? Pa dystiolaeth sydd o wrthdaro â'r staciau presennol ar y safle a beth ellir ei wneud i liniaru'r risg hon?
Q9.8	Yr ymgeisydd	Rheoli effeithiau sŵn ar safleoedd dynodedig Pa fesurau a fabwysiadwyd i gyfyngu ar sŵn fel nad yw'n effeithio ar y poblogaethau adar cyfagos, yn benodol?
Q9.9	Yr ymgeisydd	Sylwadau cyffredinol ar yr HRA: Ymateb i Sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England wedi mynegi cyfres o bryderon ynglŷn â'r asesiad o safleoedd Ewropeaidd yn eu sylwadau perthnasol [RR-026] ac [RR-027] , yn ôl eu trefn, ar faterion yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt: • Data sylfaenol, yn benodol yr asesiad o LSE ac Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd (AEol), a mesurau lliniaru/ iawndal ar gyfer rhywogaethau adar cymwys a chasgliadau adar yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy; • Yr asesiad o LSE ar golli a diraddio cynefin cymwys yn ACA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid; • Yr asesiad o effeithiau ansawdd aer yn unigol ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill ar safle ACA/ SPA/ Ramsar Aber Dyfrdwy, ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac AGA/ safle Ramsar Aber Afon Merswy; • Yr asesiad o effeithiau ansawdd dŵr ar ACA/ AGA/ safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yng nghan 1; ac • Yr asesiad o aflonyddwch sŵn a golau, colli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, rhwystro symudiadau a diraddio ansawdd dŵr ar gyfer dyfrgwn, a swm, lefel a llif dŵr ar gyfer rhywogaethau pysgod cymwys ACA Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Ymatebwch i'r holl faterion a godwyd gan CNC a NE (gan gynnwys materion y nodwyd eu bod yn bryderon allweddol gan CNC a'r rhai a nodwyd yn goch ac yn oren gan NE) erbyn dyddiad cau 4 ac amlinellwch sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain yn ystod yr archwiliad. Dylid darparu Adroddiad i Lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (RIHRA) diwygiedig erbyn dyddiad cau 4 fan bellaf. Os bydd unrhyw gasgliadau'n wahanol i rai CNC a/ neu NE, esboniwch pam a'r hyn sy'n cael ei wneud i'w datrys yn glir.
